## Arad Goch

Cafodd disgyblion yr adran Iau brynhawn wrth eu bodd pan ddaeth Cwmni Arad Goch i'r ysgol i berfformio 'Yn y Dechreuad'. Yn dilyn y perfformiad cafwyd gweithdai drama dan arweiniad aelodau'r cwmni. Roedd yn brofiad gwerthfawr iawn i'r plant.

## Gweithdy Dawns

Dydd Mawrth, Hydref 14eg ymwelodd Sioned Hughes â'r ysgol i arwain gweithdy dawns ar gyfer y dosbarth Derbyn. Mwynhaodd pawb yn fawr ac rydym yn edrych ymlaen i groesawu Sioned yn ôl atom yn y dyfodol agos.

## Canolfan y Celfyddydau

Cafodd blwyddyn 3 a 4 brofiad gwerth chweil pan aethant i weithdy celf yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ddiweddar. Treuliwyd y diwrnod yno yn dysgu sgiliau argraffu ac roedd gwaith arbennig yn dychwelyd i'r ysgol gyda'r plant.

## Ymweliad prifardd

Barddoni oedd tasg nesaf blwyddyn 3 a 4 pan ymwelodd y prifardd Iwan Llwyd â'r ysgol. Bu'n trafod ei syniadau gyda'r plant a chrewyd cerddi ar y cyd.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch blynyddol brynhawn dydd Iau, Hydref 23ain.

## Gŵyl Cerdd Dant

Bu'r parti cerdd dant a'r parti dawnsio gwerin yn ymarfer yn rheolaidd ar gyfer yr Ŵyl. Roedd perfformio fore Sadwrn, Tachwedd 1af yn brofiad arbennig iddynt. Da iawn chi blant am ymarfer yn ystod eich gwyliau ysgol hefyd. Diolch yn fawr i Mr Dafydd Thomas a Mrs Nia Lewis am eu holl waith caled.